Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

# ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL
6 Hydref, 2025

| | |
|---|---|
| TEITL: | Datblygu'r Rhaglen RTP ar gyfer 2026/27 |
| AWDUR: | Alwen Williams, Prif Weithredwr<br>Adam Graham, Uwch Swyddog Trafnidiaeth |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Cynghori'r Is-bwyllgor am y broses a'r amserlenni ar gyfer datblygu Rhaglen RTP ar gyfer 2026/27 i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod yr is-bwyllgor yn nodi'r adroddiad.

## 3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae'r adroddiad at ddibenion gwybodaeth.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Ar hyn o bryd, mae cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth drwy un o'r cronfeydd canlynol:

- Cronfa Trafnidiaeth Leol
- Cronfa Ffyrdd Gwydn
- Cronfa Teithio Llesol
- Cronfa Diogelwch ar y Ffyrdd (Refeniw)
- Cronfa Diogelwch ar y Ffyrdd (Cyfalaf)
- Cronfa Llwybrau Diogel mewn Cymunedau
- Cronfa ffyrdd heb eu mabwysiadu
- Cronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn

4.2. Drwy broses o'r enw 'Moderneiddio Grantiau', mae Llywodraeth Cymru yn cyfuno'r ffrydiau cyllido hyn ar gyfer y blynyddoedd i ddod i mewn i un gronfa, a elwir yn Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol.

4.3. Drwy drosglwyddo i un Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol, wedi'i yrru gan yr RTP, bwriad Llywodraeth Cymru yw y bydd gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig rôl llawer mwy wrth ddyrannu a rheoli gwariant ar seilwaith cyfalaf yng Nghymru.

4.4. Yn dilyn canllawiau diweddar gan Lywodraeth Cymru, gofynnir i Gyd-bwyllgorau Corfforedig nodi Rhaglen RTP ddrafft sy'n dangos amserlen gyflawni ar gyfer cynlluniau i dderbyn cyllid yn ystod 2026/27 - blwyddyn gyntaf y Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol. Mae swyddogion y CBC ac Arup yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol i nodi'r cynlluniau blaenoriaeth o'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer dilyniant yn 2026/27. Bydd y broses hefyd yn nodi rhai blaenoriaethau ar gyfer blynyddoedd dau a thri. Yna, rhaid cyflwyno'r atodlen gyflawni i Lywodraeth Cymru am gymeradwyaeth cyn bod unrhyw gyllid yn cael ei ryddhau i awdurdodau lleol. Mae'r pwnc hwn yn cael ei ystyried yn fanylach mewn eitem agenda arall yn y cyfarfod hwn.

## 5. CRONFA TRAFNIDIAETH RANBARTHOL

5.1. O flwyddyn ariannol 2026/27, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth lleol drwy'r Gronfa Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTF) i gefnogi cyflawniad y polisïau a'r blaenoriaethau sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP) a'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTDP), sy'n cyfrannu at Llwybr Newydd (WTS).

5.2. Er mwyn sicrhau cyllid RTF i Ogledd Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r CBC gydlynu cynhyrchu rhaglen o gynlluniau, sy'n nodi'n glir yr ymyraethau y bydd awdurdodau lleol cyfansoddol yn eu cyflawni dros y flwyddyn ariannol nesaf gyda chefnogaeth grant RTF. Rhaid i'r rhaglen o gynlluniau fod yn unol â'r RTDP.

5.3. Mae gofyn i'r cynlluniau sy'n cael eu hariannu drwy RTF gael eu categoreiddio i'r meysydd gweithgarwch sydd i'w gweld yn Nhabl 1.

| Cyfalaf | Refeniw |
|---|---|
| Diogelwch Ffyrdd | Diogelwch Ffyrdd |
| Teithio llesol (cerdded, olwyno a beicio) | Gwasanaethau gweinyddol y Cyd-bwyllgor Corfforedig |
| Cludiant Cyhoeddus | Newid Ymddygiad |
| Cerbydau gydag Allyriadau Isel Iawn | |
| Priffyrdd | |
| Rheoli a monitro rhaglen | |
| Gwaith paratoi rhaglen rhanbarthol | |

*Tabl 1*

## 6. TREFNIADAU ARIANNU

6.1. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Gyd-bwyllgorau Corfforedig gefnogi rheolaeth rhaglen effeithiol o'r grant a rhagweld cyflawniad effeithiol ac amserol gan awdurdodau lleol.

6.2. Yn 2026/27, bydd cyllid ar gyfer cynlluniau yn cael ei ddyfarnu'n uniongyrchol i'r awdurdod lleol i'w gyflawni. Yn y blynyddoedd i ddod, rhagwelir y gellid dyfarnu cyllid i'r CBC i'w ddosbarthu i awdurdodau lleol.

6.3. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd ffocws clir ar gyflawni prosiectau ar lawr gwlad yn ystod 2026/27, a rhaid i'r ymyraethau sy'n cael eu cyflawni arddangos gwerth gorau am arian.

## 7. DATBLYGU'R RHAGLEN RTP AR GYFER 2026/27

7.1. Fel rhan o'r canllawiau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, mae'r CBC wedi cael cyfres o ffurflenni templed i'w cwblhau, gyda manylion yr ymyraethau cludiant i'w hariannu yn 2026/27. Mae Uchelgais Gogledd Cymru, gyda chefnogaeth ymgynghoriaeth gan Arup, yn gweithio gyda swyddogion awdurdodau lleol ledled y rhanbarth i gwblhau'r ffurflenni hyn.

7.2. Mae offeryn taenlen Model RTF a ddatblygwyd gan Arup yn allweddol i'r broses hon. Mae hwn yn cael ei boblogi gan swyddogion o awdurdodau lleol gyda manylion ar gyfer pob un o'r cynlluniau yn yr RTDP. Mae'r manylion hynny'n cynnwys:

- Math y cynllun (yn seiliedig ar ardaloedd gweithgareddau a ddangosir yn Nhabl 1)
- Gofynion Cyfalaf a Refeniw
- Arian cyfatebol posibl
- Dyddiadau cychwyn a gorffen posib
- Proffil gwariant posibl hyd 2026/27
- Cyflawni yn erbyn cyfres o allbynnau a chanlyniadau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru

7.3. Mae'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru bellach yn caniatáu i gynlluniau ychwanegol (h.y. cynlluniau nad ydynt yn yr RTDP) gael eu cynnwys yn y rhaglen yn ddarostyngedig i gael eu cyflwyno a'u cytuno gan Lywodraeth Cymru ar adroddiad WelTAG 0. Mae hyn yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd i ymateb i ddigwyddiadau annisgwyl neu flaenoriaethau newidiol dros gyfnod yr RTP.

## 8 AMSERLEN A GOBLYGIADAU AR GYFER YR IS-BWYLLGOR A'R CBC

8.1. Mae Tabl 2 yn dangos yr amserlen y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gosod ar gyfer cyflwyno'r rhaglen.

| Dyddiad | Gweithgaredd |
|---|---|
| Awst i Hydref 2025 | Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gweithio gydag awdurdodau lleol, arweinwyr meysydd gweithgareddau o Lywodraeth Cymru, a Thrafnidiaeth Cymru i ddatblygu rhaglen RTP ddrafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27 |
| Tachwedd 2025 | Erbyn 21 Tachwedd, rhaid i bob CBC rannu copi electronig o'r rhaglen RTP ddrafft gyda'u Harweinydd Trafnidiaeth Rhanbarthol Llywodraeth Cymru |
| Rhagfyr 2025 | Erbyn 19 Rhagfyr, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi adborth ar y rhaglenni RTP drafft i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig. |
| Diwedd Ionawr 2026 | Erbyn 30 Ionawr, rhaid i bob CBC gyflwyno copi electronig o'r rhaglen RTP derfynol i Lywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| Mawrth 2026 | Mae Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo rhaglenni RTP ac yn anfon llythyrau cynnig RTF ar gyfer BA2026-27 at yr awdurdodau lleol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig (yn amodol ar gymeradwyaeth y Gweinidogion) |

*Tabl 2*

8.2. I sicrhau'r llywodraethu a'r gymeradwyaeth gywir, mae'r cynigion a ganlyn ar gyfer yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol a'r CBC yn cael eu cynnig:

- 4 Tachwedd– Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol anffurfiol, gan roi cyfle i'r Aelodau adolygu'r rhaglen arfaethedig
- 7 Tachwedd – Cyfarfod CBC arbennig i Aelodau gymeradwyo'r rhaglen

8.3. Byddai'r rhaglen wedyn yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 21 Tachwedd.

## 9. GOBLYGIADAU ARIANNOL

9.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn deillio o'r adroddiad hwn, ond dylai'r Is-bwyllgor gofio'r newidiadau arfaethedig i'r broses ariannu fel y nodir yn Adran 6 o'r adroddiad hwn.

## 10. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

10.1. Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol disgwyliedig sy'n deillio o'r adroddiad hwn. Ystyrir goblygiadau llywodraethu ym mharagraff 8.2.

---

ATODIADAU:

N/A

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w hychwanegu mewn perthynas â phriodoldeb. Darperir unrhyw gyngor pellach yn y cyfarfod.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Gyda chyfeiriad at adran 9 uchod, rwy'n fodlon nad oes oblygiadau ariannol uniongyrchol o'r penderfyniad a geisir ac rwy'n hapus i gefnogi'r penderfyniad. Fodd bynnag, mae'r RTP yn ddatblygiad ariannol sylweddol i'r CBC, yn enwedig o ystyried y gofyniad i'r CBC weithio'n agos gyda'r awdurdodau lleol a'r tebygolrwydd o newid yn y model cyllido y tu hwnt i 2026/27.